Gwyneth Glyn - Bywgraffiad

“Talent newydd gydag adlais o’r Joni Mitchell ifanc.” ***Steve Paul, Kansas City Star***

Ers yn ddim o beth bu gan Gwyneth Glyn gariad am eiriau. Serch hynny, roedd y ffaith bod ganddi ganeuon ac alawon o’i mewn – a llais i’w canu – yn syndod iddi. Yn ystod ei chyfnod fel myfyrwraig mewn Athroniaeth a Diwinyddiaeth yn Rhydychen, ymunodd â Chymdeithas Ddrama Prifysgol Rhydychen ac fe’i dewiswyd wedyn yn aelod o’r Oxford Revue.

Roedd gan rai o’i ffrindiau fand gwerin o’r enw Coca Rosa, ac fe’i gwahoddwyd i ymuno â’u his-brosiect, The Dirty Cousins. Roedd y wefr o ganu’n fyw’n ddatguddiad, ac felly y ganwyd cantores-gyfansoddwraig o Gymraes.

Wedi dychwelyd adref, ailddarganfu Gwyneth ei thraddodiadau gwerin a fu’n ddylanwad isymwybodol ar ei cherddoriaeth ers yn blentyn. Bu llwyddiant ei halbwm gyntaf, ‘Wyneb Dros Dro’, yn 2005, y tu hwnt i’w disgwyliadau, gan i adolygiadau cadarnhaol a’i chwarae’n gyson ar y radio ei gyrru i frig y siart Gymraeg, a sicrhau i Gwyneth ennill gwobr Artist Fenywaidd y Flwyddyn yng Ngwobrau Roc a Phop Radio Cymru yn 2006, yr un flwyddyn y’i hapwyntiwyd yn Fardd Plant Cymru.

Ers hynny, aeth ymlaen i gydweithio â rhai o feirdd a cherddorion amlycaf Cymru ac i berfformio ar achlysuron nodedig gartref, gan gynrychioli Cymru dramor yn ogystal. Yn 2009 a 2013 cafodd ei gwadd i berfformio’i cherddi a’i chaneuon yng Ngŵyl y Smithsonian yn Washington D.C.

Tair albwm yn ddiweddarach, mwynheir ei gwaith gan gynulleidfaoedd ymhellach-bellach i ffwrdd wrth iddi deithio, perfformio a chreu cyweithiau cynhyrfus. Yn ddiweddar mae wedi dechrau archwilio cerddoriaeth a diwylliannau llenyddol gwledydd pell, a esgorodd ar gyfeillgarwch ac ysbrydoliaeth ar y ffordd. Mae’i chydweithio presennol gyda’r cerddor Tauseef Akhtar o Fwmbai, India, yn gwau barddoniaeth Wrdu a chanu ghazal â hen benillion Cymraeg, ac offerynnau traddodiadol India â gitar a llais Gwyneth, a sain y delyn.

Wedi byw am bum mlynedd yng Nghaerdydd, mae Gwyneth wedi dod yn ôl yn ddiwedar at ei gwreiddiau yn Eifionydd. Ond mae’r lôn yn ei gwahodd o hyd. Treuliodd wythnos yn ddiweddar yn The House of Song, yn Austin, Texas, gan gydweithio a pherfformio gydag artistiaid lleol a rhyngwladol. Hefyd tra yn yr UDA gwnaeth showcase yn yr American Folk Alliance yn Kansas City.

Fis Hydref eleni bydd yn cefnogi Seckou Keita, y chwaraewr kora o Senegal, ar ei daith drwy Bry*dain.*